

Fel y gŵyr y rhan fwyaf ohonoch, fe fydd yr Athro Bedwyr Lewis Jones "Yn ei elfen" yn trin a thrafod Enwau Lleuoedd Tâf-Elái yn ystod mis Mai. Hyn a llythyr Ceinwen Thomas yn rhifyn Mawrth o'r Tafod sydd wedi ysgogi y pwt hwn o ymchwil ar fy rhan innau.

Yn gyntaf, yn dilyn cywiro Bâd-Uchaf yn Glan Bad (Upper Boat), dyma bori yng nghyffrol Gwasg y Brifysgol "Rhestr o Enwau Lleuoedd" i weld yn union sawl lle yn Nhaf-Elái sydd ag enwau Cymraeg/Saesneg iddynt. Mae'n syndod cyn lleied sydd a deud y gwir - ac yn wyneb hynny dyma nhw ar eich cyfer ac at eich defnydd:-

- Ffynnon Tâf - Taff's Well
- Glan-Bad - Upper Boat
- Glanelái - Lanelay
- Glyn-tâf - Glyntaff
- Llanhari - Lianharry
- Llanilltud Faerdref - Llantwit Fardre
- Meisgyn - Miskin
- Trehopcyn - Hopkinstown
- Y Ddraenen Wen - Hawthorn


(Mae "Rhestr o Enwau Lleuoedd" newydd ei ail argraffu mewn clawr papur am £4.95).

Roedd yr ail dasg yn llawer mwy cymhleth ac o'r herwydd yn gofyn am amser nad oedd gennyf, yn anffodus i wneud iawn a hi. Penderfynais edrych trwy fapiau Ordnans ar raddfa 1:2500 a gyhoeddwyd yn 1919, i gofnodi enwau'r ffermydd a thaf annedd, enwau'r afonydd â'r nentydd, a'r bryniau/mynyddoedd o fewn ffiniau Tâf-Elái.

Gellid fod wedi ymestyn yr ymchwil i gofnodi enwau glofeydd y cylch, capeli'r cylch, henebion y cylch ac unrhyw beth arall o ddiddordeb a fyddai yn gofnod o orffennol ein cwmwd.

Nid ydw i am geisio dadansoddi'r gwahanol enwau - gwaith arbenigwr fel yr Athro Bedwyr ydi hynny - yn hytrach eu rhestru ar eich cyfer. Pwy ŵyr, efallai bod rhai ohonoch yn byw yn un o'r ffermydd, neu yn cofio syrthio i ambell nant fechan, neu gael picnic ar ochrau un o'r bryniau a enwir isod.

Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r ddwy afon sy'n ffinio'r ardal sef y Tâf a'r Elái, on wyddech chi am y nentydd canlynol:-



Nantcymdda Bach	Nantgelliwion	Nant Cwm Du	Nant Llanbad
Nant Erin	Nantmyddlyn	Nant Cae'r gwerlas	
Nant Graian	Nant-y-ffin	Nant-tŷ'r arlwydd	
Nantdowlais	Nant melyn	Nant Gledyr	Nant-y-fforest
Nant Cae-dudwg	Nant Tŷ-crwyn	Nant Llanilid	Nant yr Aber
Nant-y-gofer	Nant Clydach	Nant Cwmllydwrew	Nant-y-cesair
Nant-yr-arian	Nant Ciwc	Nant-y-cetrys	Nant-y-felin
Nant tai'r heol	Nantcastellau	Nant Coslech	

Peidiwch ag anghofio hefyd am fodolaeth yr Afon Clun, ac mae'r Afon Ewenni Fach â'r Ogwr Fach yn tramwyo un a'i trwy neu ar hyd ffin y cylch.

Beth am y bryniau neu'r "mynyddoedd" ynte?

Twynmaes-y-grug	Mynydd Hugh	Coedcastellau	Coed-cae-bach
Foel	Mynydd Meiros	Cae Tŷ-du	Coed berthlwyd
Llwynscuthan	Mynydd Portref	Coed Trecastell	Coed Caedryns
Mynydd Garth Maelwg		Coed-y-bryn	Coed Glyntaf
Brynna Gwynion	Mynydd-y-Glyn	Coed Craiglwyd	Coed Dan-y-ty
Waucastellau	Cwm Llanbad	Coed Gelli-draws	Coed Graig-fach
Mynydd Gelli-wion		Coed-fforest-uchaf	
Gwaunmiskin	Coed Mawr	Coed-fforest-isaf	
Twyn-y-gwynt	Twyn Howel	Coed Bodwenarth	Coedcae Coedog
Berth Fawr	Craig-yr-Allt	Warren Goedog	Coed Pant-du
Cefn Eglwysilan	Mynydd-y-Gilfach	Coedcae Berwerdy	
Craig-y-Parc	Troed-Rhiw-Trwyn	Di-goed	Coed-y-bedw
Twyn'r-aderyndu	Craig Ffynnonwym	Coed Rhiw'r Ceiliog	
Pant-y-Graigwen	Cwm rhydd goed	Coed-y-Creigiau	
Graig hir	Craig-yr-Hesg	Coed Hendre-sguthan	
Garth	Coedcaefawr	Coed Caerau-bach	
Coed Landraw	Tŷ'n-y-Coed	Coed ynys maerdy	
Coed Tre-wern	Coed Maes-bach	Coedlanelay-fach	
Coed Mawr castellau		Craig-y-Lan	
Craig Melyn	Coed-y-cetrys	Coedgae Bassett	

ROL EIN BRO

Fe sylwch wrth reswm fod llawer gwaun neu fryn wedi ei enwi yn ôl enw'r fferm sydd gerllaw - er na wyddom i sicrwydd pa un ddaeth gyntaf!

A dyma ni yn edrych ar enwau'r ffermydd - nid y cwbl ohonynt, maent yn rhy niferus, ond beth am y canlynol:-

Llwyn-crwn (uchaf/isaf)

Tyclwydau Dyhewyd
Cloddia-caban Gedrys
Ty'r arlwydd Gwern-y-Foel
Dyffryn Ffrwd Treferig isaf
Ystradbarwig isaf
Bwlch y Maen Tal-y-fedw
Glanmyddlyn Tŷsïdra
Maes-y-Grug Ynysallan
Rhyd-y-gerddinen Rhyd-y-llech
Ynys-y-plwm Tirmabellis
Pant-y-ddraenen

Glan mychydd (fach/fawr)
Tirdeugain Llan
Yr hofel Croesged
Crofft-yr-halidd Penbwchuchaf
Rhyd-y-melinydd Meiros
Llwyn-y-brain Gelli-fedi
Llanbad (fawr/fach)
Cynllan Tre-nos-isaf
Argoed Edwin Pistyll arian
Rhyd-y-gofer Graig Fatho
Tylcha fach Garth Graban
Gwern Leucu Pant-y-brâd
Tontraethwg-fach Maesaraul
Rhiwinder-fawr Gelli'r Haidd
Gelli Seren Tran
Cae'r-gwerlas-isaf
Hendre-forgan Craig Alfa
Bryn Tail Pant drain
Lan-draw Bodwenarth
Gellifynaches Uchaf
Lan Berwedd-dy
Cefn Collena

Gelli-gron Cefnbychan
Hendresguthan Cefngwarwig
Blaen Buellai Porthandro
Llwynmilwas Rhiwbrwdwal
Cae-yr-arfau Typlocyn
Rhiw'r ddâr Cwmdylluan
Ty-pica Cilaswg
Pant-y-gored Bron-y-gocyd
Croffta Brofiscin
Cefnocolstin Tylamorris

Mae na ddegau eraill ohonynt - a phleser pur oedd darganfod fod y mwyafrif helaeth, oddeutu 95% o'r ffermydd ag enwau Cymraeg arnynt. Pleser pur, ond dychryn hefyd o ystyried tybed faint o'r perchogion heddiw sydd hyd yn oed yn gallu ynganu'r enwau'n gywir, heb son am ddeall eu hystyr.

Os nad ydych yn gwybod ymhle yn union y mae'r nentydd, bryniau neu ffermydd a enwyd uchod, beth am fynd ati i chwilota eich hunain? A chofiwch chwithau'r athrawon fod yma o dan ein trwynau ddefnydd diddorol ar gyfer astudiaethau lleol gyda'r plant. Beth am wneud casgliad cyflawn o'r enwau yma?

YMRYSON Y BEIRDD

Mae ymrysona rhwng beirdd yr ardal yn achlysur gwerth ei glywed a'i weld ac roedd yr Ymryson a drefnwyd gan Bwyllgor Cerdd Dant yr Eisteddfod yng Nglwb y Bont ar 22ain o Ebrill ymysg y goreuon.

Tri tîm oedd yn cystadlu am y brif wobr - Tîm Clwb y Bont, Tîm Clwb y Dwrlin a Thîm Tafod Elai. Y meurn craff a phrofiadol oedd y Bonwr Geraint Hughes ac yn ogystal â disgwyl barddoniaeth o'r radd flaenaf roedd yn beirniadu safon datganiad ac ynghaniad y campweithiau. Mae'n amlwg fod rhai tîmau wedi defnyddio doniau o'r tu allan i'w talgylch ac fe fu ymgecru garw am fod un aelod wedi cael 'Ffri-transfer' o Dîm Clwb y Bont i Dîm y 'Tafod'. Er hynny, neu efallai oherwydd hynny, llwyddodd Tîm Clwb y Bont i guro'r ymwelwyr ar ddiwedd noson o hwyl a difrifwch o'r safon uchaf a'r safon isaf.

Mae'n amhosib cyhoeddi rhai o'r cerddi - dyma rai o'r rhai mwy gwarediddig.

Parodi ar Gwenoliaid

Darllenant am dai
Ym mhapur y Telegraph;
Aiff rhywbeth â'u sylw -
Syllant, mae'n fargen mor saff.

Dechreuant ffonio, -
Mae rhywun yn ateb draw,
Byr yw'r bargeinio,
A phob un â'i siec yn ei law.

Yna cyfodant
Bob un o'i ddeheuol dŷ,
Trônt tua Chymru
A'u plant yn eu dilyn yn llw.

Dont yn Sais ac yn sais,
Boddant y wlad a'r dre;
Yfory fe lanwant
Bob ysgol a swydd yn y lle.

TÂN
(Cerdd i Simon Weston)

Wynebau peintiedig haerllug
Yn marchogaeth tonnau Môr y De
Ymarferedig ddwylo
A bysedd croendew
ar drigo.

Ac yn un o gymoedd y De
Hiroshima o wyneb
A chrynedig ddwylo'n
Dal bysedd croendenau
A hwythau'n mwytho
sigaret.

Clwb y Bont

DYDDIAD I'W GOFIO

19 Mai 1989

Yr Athro Bedwyr Lewis Jones

yn siarad am

ENWAU LLEFYDD TAF-ELAI

yn Ysgol Gynradd Cymraeg Castellau, Y Beddau

Dylai'r noson hon fod o ddiddordeb i bawb sy'n byw yn yr ardal, yn frodorion a newydd ddyfodiaid, ac yn arbennig efallai i bobl ifanc sydd wedi'u magu yma. Bydd y BBC yn recordio ail hanner y noson ar gyfer y rhaglen Yn ei Eifen

Trefnir y noson gan Bwyllgor LLenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Taf-Elai, 1991.

Y FRO

Mae cynnwrf fel Mai cynnar, - rhyw gynnwrf
Gwahanol, ymbilgar, -
Hen ddyheu yn y ddaear
Am ddadeni'r gwyrddni gwâr.

Clwb y Dwrlin